# ARDAL GADWRAETH PORTHGAIN



## ARFARNIAD A CHYNLLUN RHEOLI

# Canllawiau Cynllunio Atodol

**Cynllun Datblygu Lleol 2 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

**Dyddiad Cymeradwyo ar gyfer Ymgynghori: 15 Medi 2021**
**Dyddiad Mabwysiadu: 26ain Hydref 2022**

Cyflwyniad ........................................................................................................ 2
Cyd-destun y Polisi Cynllunio ........................................................................................ 4
Datblygiad Hanesyddol ac Archaeoleg ........................................................................ 5
Dadansoddiad o Gymeriad ........................................................................................ 9
Yr Ardal Gadwraeth a’i Lleoliad ................................................................................ 10
Deunyddiau adeiladu ................................................................................................ 17
Lleoliad Tirwedd ........................................................................................................ 24
Canllawiau Lleol a Chynigion Rheoli ........................................................................ 28
Datblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth .................................................... 35
**Atodiad A: Deddfwriaeth, polisi a chanllawiau cenedlaethol** ............. 38

# Cyflwyniad

1. Roedd cyflwyno Ardaloedd Cadwraeth yn deillio o'r ymwybyddiaeth gynyddol y gallai ardaloedd cyfan fod o ddiddordeb a gwerth yn ogystal ag adeiladau a choed unigol. Ardaloedd Cadwraeth. Fe'u cyflwynwyd ym 1967 ac maent bellach yn dod o dan Ddeddf Cynllunio 1990 (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), ac mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol bennu a dynodi 'ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu ymddangosiad fel Ardaloedd Cadwraeth.

2. Dynodwyd Porthgain yn Ardal Gadwraeth yn 1997. Ar ôl eu dynodi, mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i amddiffyn Ardaloedd Cadwraeth rhag datblygiad niweidiol, mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y polisïau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol. Mae dyletswydd arnynt hefyd i adolygu ffiniau a nodi mesurau posibl ar gyfer gwella a diogelu'r Ardal Gadwraeth.

   *Gweler Map 1 drosodd.*

3. Yn ychwanegol at y cyfyngiadau cyffredinol ar ddatblygiad a ganiateir ar draws y Parc Cenedlaethol, mae canlyniadau dynodiad Ardal Gadwraeth yn cynnwys y gofyniad am gydsyniad i ddymchwel rhai adeiladau/nodweddion ffiniau a'r gofyniad i hysbysu'r Awdurdod o gynigion sy'n effeithio ar rai coed.


4. Pwrpas arfarniad Ardal Gadwraeth yw diffinio rhinweddau'r ardal sy'n ei gwneud yn deilwng o statws Ardal Gadwraeth. Bydd hyn yn rhoi sail gadarn ar gyfer penderfyniadau rheoli datblygu ac ar gyfer mentrau gwella. Bydd hefyd yn galluogi datblygu fframwaith polisi cadarn ar gyfer rheoli'r ardal yn y dyfodol, lle gellir ystyried cynllunio a cheisiadau a chynigion eraill ar gyfer newid.

5. Mae'r ddogfen hon yn gweithredu fel a ganlyn:-

- Arfarniad o'r nodweddion amrywiol sy'n rhoi ei ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig i Ardal Gadwraeth Porthgain, y rhagdybiaeth yw eu bod yn cael eu cadw neu eu gwella fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth.
- Cynllun rheoli yn nodi cynigion a all wella cymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth.

6. Daw'r rhanddeiliaid perthnasol o'r sectorau preifat a chyhoeddus a bwriedir i'r ddogfen hon gael ei defnyddio gan y ddau.

# Porthgain
## Ardal Gadwraeth
## Dynodwyd 1997
## MAPIAU 1




- Ardal Gadwraeth/Ardaloedd Cymeriad
- Adeiladau Rhestredig
- Gorchymyn Cadw Coed/Coed sy'n bwysig i'r lleoliad
- Henebion Rhestredig
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- Ardal Cadwraeth Arbennig
- Adeiladau Timod
- Adeiladau Ynni Positif
- Cwrtiau/ffrynbadau Allweddol
- Ardaloedd Agored Hanfodol
- Cyfle i wella'r blaengwrt/cwrtil/ffryntiadau siopau
- Cyfle i Wella'r Ardal
- Cyfle i Wella Nodweddion yn y Maes Cyhoeddus

Golygfa allweddol

1. Golygfeydd o'r harbwr tua'r môr
2. Golygfeydd panoramig o'r pentref a'r harbwr a'r pentiroedd o lwybr y clogwyni uwchben Pilot's House
3. Golygfeydd panoramig o'r pentref a'r harbwr a'r pentiroedd o lwybr y clogwyni uwchben Pilot's House
4. Golygfa dros y pentref tuag at y môr; y begwn

Cipolwg ar a gwrthrych/timod/pwynt diddordeb

1. Cipolwg ar Porthgain Row dros Sunnyside
2. Cipolwg ar hopranau, Tŷ Mawr a'r harbwr
3. Cipolwg ar yr harbwr, Pilots House a'r pentir gyda'r begwn


Crëwyd gan / Created by: Philip Barlow (13/10/2021)

Graddfa / Scale: 1:4,246

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2021

# Cyd-destun y Polisi Cynllunio

7. Mae Atodiad A i'r Canllawiau hyn yn nodi crynodeb o'r ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau cenedlaethol. Mae Polisi 8 Rhinweddau Arbennig y Cynllun Datblygu Lleol 2 yn darparu ar gyfer amddiffyn rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Paratoir y canllaw hwn i gefnogi'r polisi hwnnw yn benodol maen prawf b) sy'n ceisio sicrhau na chollir hunaniaeth a chymeriad trefi a phentrefi.



**Ffigwr 1 - ailadeiladu harbwr sy'n gweithio – hawlfraint Michael Blackmore**

# Datblygiad Hanesyddol ac Archaeoleg

8. Mae'r enw yn cynnwys dwy elfen - *Porth (bae)* a *Cain,* naill ai enw coll am y nant sy'n llifo trwy'r pentref, neu enw personol.

9. Mae’r ardal yn llawn o archaeoleg gynnar, gyda darganfyddiadau lleol yn dyddio o’r cyfnod Mesolithig. Ar hyd yr arfordir rhwng Tyddewi a Llandudoch mae yna sawl caer bentir o’r Oes Haearn i’w gweld.

10. Ychydig a gofnodir o unrhyw hanes canoloesol, ond roedd Porthgain yn rhan o faenor ganoloesol Llanrhian, a roddwyd i Maurice Fitzgerald cyn 1175. Erbyn yr ail ganrif ar bymtheg, roedd y faenor wedi pasio i lawr i deulu Le Hunte o Altramont, Swydd Wexford, ac arhosodd yn eu meddiant tan 1881, pan gafodd ei phrynu gan Henry Prosser.

11. Yn ôl pob tebyg, harbwr bach oedd pentref Porthgain o'r amseroedd cynnar, er na chafodd ei chofnodi yn rhestr 1566 o borthladdoedd a chilfachellau yn Sir Benfro. Mae map Emanuel Bowen o Dde Cymru (1729) yn awgrymu bod yr harbwr yn bodoli, yn allforio llechi lleol efallai. Mae'n bosib mai Tafarn Sloop yw'r adeilad cynharaf, yn dyddio o 1743 mae'n debyg, ond cafodd ei hailadeiladu ar ôl dod yn dafarn yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae’n debyg bod yr odyn galch cyfagos sy’n nodweddiadol o lawer o odynau arfordirol yn y sir hefyd yn bodoli cyn y pentref presennol.

12. Yn dominyddu unrhyw dystiolaeth gynharach o anheddiad a gweithgaredd sydd wedi goroesi mae olion helaeth o weithgaredd chwarela ar hyd y clogwyni. Gyda chronfeydd helaeth o lechi a gwenithfaen, cafodd yr ardal ei thrawsnewid yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cafodd consortiwm o Lundain prydlesi tir gan George le Hunte yn 1840. Yn y pendraw yn masnachu fel y Meistri Barclay a’i Gwmni, cawsant y tir i adeiladu harbwr, morglawdd a phierau yn 1851.

13. Gwnaeth y consortiwm diwygiedig gymryd drosodd chwareli llechi Abereiddi, yn ogystal â’r rhai yn Nhrwyn Llwyd i’r dwyrain. Daethpwyd â pheiriannau stêm i mewn ac adeiladwyd rheilffordd gul rhwng y chwareli yn Abereiddi a'r harbwr newydd ym Mhorthgain, lle sefydlwyd chwarel lechi. Daeth nifer o weithiwyr i’r ardal o chwareli llechi Gogledd Cymru ac erbyn 1855, roedd William Prichard (yn wreiddiol o Sir Gaernarfon) yn gyfrifol am weithrediadau. Adeiladwyd bythynnod yn y pentref ac ym Mhentop ac adeiladwyd tyrau gwyngalchog ar y pentir i dywys llongau i'r harbwr drwg-enwog. Un adeilad sydd wedi goroesi o’r cyfnod yw’r caban peilot, sy’n edrych dros yr harbwr.

14. Roedd masnach yn anghyson, ac yn wynebu cystadleuaeth gynyddol gan lechi Gogledd Cymru, a oedd o ansawdd gwell (ac yn rhatach) na'r llechen leol fandyllog (a oedd yn aml yn cael ei orchuddio â haenen o slyri calch). Ar ôl i fasnachu ddod i ben yn 1860-2, ailadeiladodd cwmni newydd y dramffordd, ynghyd ag injan 16 marchnerth i bweru inclein cadwyn o Borthgain. Ffurfiwyd Cwmni Llechi a Slabiau Cymreig Sain Ffraid ym 1875, gyda nifer o randdeiliaid

yn awyddus i fuddsoddi yn y diwydiant llechi ffyniannus. Byrhoedlog oedd y llwyddiant ac aeth y cwmni i'r wal yn 1880.

15. Ffurfiwyd The United Welsh Slate Company yn 1883. Arweiniodd mwy o gloddio llechi ym Mhorthgain at ddyfnhau llawr y chwarel, symudwyd y llechen trwy inclein ddwbl, mae'r tai injan brics yn dal i oroesi. Roedd ail inclein ddwbl ar draws y pentir yn cario'r llechi i lawr i'r harbwr. Cafodd yr incleiniau eu disodli gan rafffordd awyr ac yn olaf, datryswyd y broblem o'r gwaelod dyfnach trwy gloddio'r cyswllt twnnel yn uniongyrchol i'r harbwr.

16. Ail-ffurfiwyd y cwmni yn 1893, gyda chynlluniau mawr i wella'r seilwaith, ond erbyn 1895 roedd y cwmni wedi dod i ben. Erbyn 1900, dim ond tri dyn oedd yn cloddio ac yn naddu llechi ym Mhorthgain ac erbyn 1910, roedd y gwaith llechi wedi dod i ben yn gyfan gwbl.

17. Roedd gwneud brics yn ddiwydiant arall pwysig ym Mhorthgain, yn defnyddio clai lleol a gwastraff cerrig. Dechreuodd y gwaith yn 1878 gyda Thŷ Mawr yn goroesi fel y sied gwneud brics. Roedd pynfarch yn pweru'r felin glai cysylltiedig (wedi'i dymchwel) ac i'r gogledd-ddwyrain roedd odyn Hoffman barhaus enfawr wedi'i phweru gan lo carreg gyda chorn uchel. Yn 1893 roedd cynhyrchu tua 50,000 o frics yr wythnos yn nodweddiadol. Parhaodd y gwaith gwneud brics tan yr 1920au, brics lliw pinc o ansawdd cryf, oedd weithiau gyda stamp 'Porthgain'.

18. Y diweddaraf o'r 'trindod' o ddiwydiannau ym Mhorthgain oedd cynhyrchu gwenithfaen wedi'i falu ar gyfer cerrig ffordd. Gyda'r gwelliannau parhaus i'r ffyrdd oedd yn cael eu defnyddio fwyfwy, roedd yna fwy o alw o lawer am agregau na llechi. Ym 1904, manteisiwyd ar y galw hwnnw gan y cwmni Forest of Dean United Stone Firms o Fryste, a adeiladodd y bloc enfawr o gynwysyddion wrth ochr yr harbwr, oedd yn cynnwys y gwahanol raddau o gerrig mâl i'w gollwng i'r cychod oedd yn aros. Mae olion y mathrwyr wedi goroesi uwchben a thu ôl i'r cynwysyddion, wedi'u cyflenwi gan wagenni codi o'r chwarel arfordirol i'r gogledd-orllewin. Cafodd pier y gorllewin ei hymestyn a chafodd pier canolog ei greu, a arweiniodd at harbwr mewnol mwy diogel.

19. Cludwyd cerrig ffordd i gyrchfannau gan gynnwys Bryste a Llundain, tra bod y gwenithfaen gwyrdd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyrbau a cherrig adeiladu. Gyda chystadleuaeth gref gan y chwareli oedd yn cael eu gwasanaethu gan y system reilffordd, dechreuodd Porthgain ddirywio yn y 1920au. Er bod y cynwysyddion yn y gogledd wedi'u hadeiladu neu eu hailadeiladu yn ddiweddar, caeodd y gwaith yn 1931. Yn 1982, prynwyd y tir a'r eiddo gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Chymdeithas Pentref Porthgain. Prynwyd yr eiddo yn ei dro gan y trigolion a chymerodd yr Awdurdod drosodd ardaloedd gan gynnwys yr harbwr, y cynwysyddion a Thŷ Mawr.

20. Ers y 1930au, mae'r harbwr wedi bod yn bwysig i'r diwydiant pysgota lleol (yn enwedig crancod a chimychiaid). Mae'r pentref hefyd yn gyrchfan bwysig i dwristiaid.




**Ffigwr 2 - golwg o thua 1900, wedi'i dominyddu gan y gwaith brics**




**Ffigwr 3 - Porthgain Row/Y Stryd - tua 1900**




**Ffigwr 4 - golygfa o ddechrau'r 20fed ganrif o'r de-ddwyrain**



**Ffigwr 5 - Yr Harbwr a'r Cynwysyddion**

# Dadansoddiad o Gymeriad

21. Mae cymeriad Porthgain wedi'i gysylltu'n gynhenid a'i hanes a datblygiad.

- Mae'r Ardal Gadwraeth o bwysigrwydd hanesyddol eithriadol ac yn cadw llawer o dystiolaeth o'i gorffennol.
- Mae anheddiad cyn-hanesyddol yn dylanwadu ar gynllun y pentref ac yn ddiweddarach tyfodd o amgylch grîn agored.
- Nid yw'r pentref wedi cael ei newid llawer gan ddatblygu diweddarach ac mae'n ychydig o berl cuddiedig.
- Mae gan yr Ardal Gadwraeth osodiad hyfryd o fewn penrhyn agored Tyddewi.
- At ei gilydd mae cymeriad yr adeiladau yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r palet pensaernïol yn nodweddiadol yn syml ac yn cynnwys rendro, ffenestri codi a thoeon llechi/wedi growtio.
- Un o'r prif adeiladau yw Capel Methodistaidd 1827.

22. Mae'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys naw o **Adeiladau Rhestredig**. Dangosir hyn ar y map Ardal Cymeriad, ynghyd ag **adeiladau tirnod** ac **adeiladau cadarnhaol** (adeiladau allweddol heb eu rhestru sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad yr Ardal Gadwraeth).

23. Mae'r map hefyd yn dangos **ardaloedd agored hanfodol** a **choed/grwpiau o goed pwysig.**




**Ffigwr 6 - golwg o Dafarn y Sloop o ddechrau'r 20fed ganrif.**

# Yr Ardal Gadwraeth a'i Lleoliad

24. Mae Porthgain yn bentref arfordirol bach sy'n swatio mewn dyffryn llydan wedi'i osod y tu ôl i hen harbwr diwydiannol bach. Mae'r tai i'r de-ddwyrain yn sefyll ar lwyfandir ac i'w gweld o'r unig ffordd sy'n mynd i mewn i Borthgain. Mae canol y pentref ei hun wedi'i leoli o amgylch grîn/maes parcio canolog, sy'n dod i'r golwg yn sydyn y tu hwnt i'r gornel siarp.

25. Mae cynllun y pentref yn anarferol (i Sir Benfro), mae wedi'i ganoli'n bennaf ar grîn fawr agored, a arferai fod yn ganolbwynt diwydiannol y gwaith llechi a brics yn Nhŷ Mawr, mae'r sied beiriannau ar gyfer y gwaith brics wedi goroesi. Mae'r tai wedi'u gosod ar hyd ochrau'r dyffryn. I'r de mae The Row - teras o fythynnod unllawr o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac i'r gogledd teras byr o dai deulawr, gyda Thafarn Sloop a'r odyn galch wedi'u gosod yn agosach at yr harbwr. Mae'r olaf yn edrych yn fach iawn o'i gymharu â'r cynwysyddion brics, gyda hen swyddfa'r peilot gerllaw. Yn yr ugeinfed ganrif digwyddodd llawer o fewnlenwi ac yn ddiweddarach disodlwyd rhai tai parod (a fewnforiwyd ar y môr) gydag anheddau mwy. Mae'r cymeriad adeiledig cyffredinol yn gymysgedd o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, yn anffurfiol yn bennaf o ran cynllun heb fawr ddim yn amgaead ffurfiol.

26. Mae'r rhan fwyaf o'r eiddo'n wynebu'r lôn a'r mwyafrif wedi'u gosod y tu ôl i erddi bach. Mae nifer o'r tai wedi'u gosod ar safleoedd uchel, wedi'u terasu uwchben lefel y ffordd. Gellir cyrraedd y tai uchaf ar ochr ddwyreiniol fwy serth y dyffryn trwy draciau cul, mae'r teras o dai yn wynebu'n uniongyrchol ar un. Mae yna hierarchaeth glir o dai o fythynnod gweithwyr The Row i'r teras gyda ffenestri bae diweddarach yr ochr arall i'r dyffryn, a adeiladwyd efallai ar gyfer aelodau uwch o'r gweithlu.

27. Mae'r pentref wedi'i osod rhwng y pentiroedd creigiog gyda'r llethrau arfordirol yn darparu gosodiad deniadol ar gyfer y pentref. Mae'r rhain hefyd yn cynnwys y tyrrau llywio cerrig gwyngalchog, a adeiladwyd yn y 1850au i gynorthwyo mynediad i'r harbwr cul. Mewn cyferbyniad â'r arfordir agored, yw'r tir gwlyb i'r de-ddwyrain. Ar y clogwyn y tu ôl i'r cynwysyddion mae sawl strwythur bach sy'n dyddio o oes y chwareli gwenithfaen, gan gynnwys tai injan, pont bwyso, swyddfeydd a storfeydd. Mae amrywiol sylfeini wedi goroesi ar y pentir gorllewinol, gan gynnwys sylfeini Teras Pentop o'r 1850au. I'r gogledd-orllewin mae llinell y dramffordd oedd yn cysylltu'r chwareli gwenithfaen â'r harbwr. Gellir archwilio llawer o hyn o Lwybr Arfordir Sir Benfro, le mae yna olygfeydd panoramig o'r arfordir a golygfeydd ar draws yr Ardal Gadwraeth. Mae'r Ardal Gadwraeth yn gyfoethog iawn o archaeoleg ddiwydiannol gyda nifer o fân greiriau ac olion adeiladau/ seilwaith coll ar ôl.

28. Mae naw o adeiladau yn yr ardal gadwraeth yn adeiladau **Rhestredig**. Mae'r cynwysyddion yn **Heneb Gofrestredig.** Nodwyd rhai **adeiladau cadarnhaol** allweddol o ran eu cyfraniad i'r strydlun. Mae'r Ardal Gadwraeth yn ardal

breswyl yn bennaf o ran cymeriad, ond mae'r dafarn, y bwyty a'r oriel yn atyniadau poblogaidd ac mae'r harbwr yn parhau i fod yn bwysig i'r diwydiant pysgota lleol.



**Ffigwr 7 - Tŷ Mawr - rhestredig Gradd II**


**Ffigwr 8 - adeilad cadarnhaol**

29. Mae topograffi'r Ardal Gadwraeth yn caniatáu amrywiaeth o **olygfeydd a chipolygon** o'r ardal gyfagos. Mae'r rhain wedi'u nodi ar Fap 2. Un o'r golygfeydd mwyaf deniadol yw'r un dros y pentref a'r cefndir arfordirol o'r llwybr uwchben y Caban Peilot.



**Ffigwr 9 - yr olygfa dros yr Ardal Gadwraeth o uwchben y Caban Peilot.**

30. Yn yr Ardal Gadwraeth mae yna lawer iawn o fannau agored hanfodol, pob un yn anffurfiol/naturiol ei gymeriad, yn amrywio o grîn y pentref i bentiroedd arfordirol. Mae ardaloedd agored hanfodol anffurfiol yn nodweddu llawr y dyffryn, wedi'i cris-groesi gan draciau a llwybrau.



**Ffigwr 10 - Grîn y pentref**

31. Er gwaethaf y lleoliad arfordirol agored, mae nifer o **goed/ grwpiau o goed** yn bwysig i gymeriad yr ardal, gan gynnwys y grŵp o sycamorwydd y tu ôl i The Row a choed llai i'r gorllewin o Sunny Hill, sy'n darparu rhywfaint o feddalu i gymeriad adeiledig y rhan hon o'r Ardal Gadwraeth.



**Ffigwr 11 - coed i'r cefn o Res Porthgain**

32. O ran tir y cyhoedd, mae ffordd y pentref o orffeniad safonol heb unrhyw balmentydd nac ymylon ffurfiol. Mae cynllun tanddaearu diweddar wedi cael gwared ar lawer o'r gwifrau ymwthiol tra bod y goleuadau stryd o arddull fodern anymwthiol.




**Ffigwr 12 -goleuadau stryd modern priodol**


## Map o olygfeydd amlwg o Borthgain




**Porthgain**
**Ardal Gadwraeth**
**Dynodwyd 1997**
**MAPIAU 2**

1. Mynedfa i'r pentref yn dangos tai ar ochr ddwyreiniol y dyffryn wedi'u fframio gan goed sycamorwydd.
2. Golygfeydd i lawr tuag at yr harbwr, Tŷ Mawr, hopranau a Porthgain Row. Ynys Faen yn amlwg ar y gorwel uwchben llethrau prysgwydd. Caeau yn y pellter
3. Golygfeydd o'r pentir dros yr harbwr, hopranau a Tŷ Mawr. Pentir dwyreiniol eang gyda strwythurau diwydiannol wedi'u hadeiladu o frics i'w gweld yn amlwg. Golygfeydd panoramig o'r môr a thirwedd yn y pellter yn llawn ffermydd a thai.
4. Golygfeydd o Felindre tuag at dai ar ochr ddwyreiniol yr Ardal Gadwraeth gyda'r pentir a'r môr y tu hwnt.

0 100 200 300 m




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2021

# Deunyddiau adeiladu

***Waliau***

- Mae bron i gyd o'r adeiladau hanesyddol yn cynnwys llechi/rwbel lleol, mae'r tai at ei gilydd wedi'u rendro a'u paentio. Roedd rhai o'r adeiladu wedi'u golchi â lliw. Mae'r mwyafrif o'r tai allan o lechi meddal noeth, ond roedd y mwyafrif ohonynt yn wyngalchog yn wreiddiol.
- Mae unrhyw fanylion wedi'u rendro sy'n bodoli yn syml.
- Tŷ Mawr wedi'i adeiladu o wenithfaen gwyrdd wedi'i osod yn dda gyda meini bwa nadd.
- Er gwaethaf bodolaeth y gwaith brics, mae arwynebau brics yn brin, ac eithrio'r cynwysyddion enfawr.



**Ffigwr 13 - ffasadau wedi'u rendro nodweddiadol**



**Ffigwr 14 - olion golchi â lliw**



**Ffigwr 15 - Tŷ Bach a adeiladwyd o lechi**



**Ffigwr 16 - Caban y Peilot wedi'i wyngalchu**

### *Ffenestri*

- Yn nodweddiadol ffenestri codi â chwarelau bach o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gydag enghreifftiau diweddarach gyda 4 chwarel



**Ffigwr 17 - ffenestr godi gyda 12 chwarel**



Ffigwr 18 - ffenestri godi gyda 4 chwarel

### *Drysau*

- Yn nodweddiadol yn ddrysau bordiog



Ffigwr 19 - drws bordiog

*__Toeau__*

- Toeau ar ongl llechi naturiol (lleol yn hanesyddol, ond wedi'u disodli gan lechi o Ogledd Cymru yn y pen draw) yn bennaf.
- Mae rhai toeau 'wedi'u growtio' smentiedig wedi goroesi.
- Teils crib plaen/gorgyffyrddol yn bennaf.
- Manylion bargodion fel arfer yn syml ac wedi'u plastro â morter.



**Ffigwr 20 - to wedi'i growtio**



**Ffigwr 21 - To gyda llechi Gogledd Cymru**

***Simneiau***

- Simneiau cynharach o gerrig gydag wyneb llechi a chapan simdde syml. Simneiau diweddarach o frics gyda phennau corbelog.
- Potiau modern at ei gilydd.



**Ffigwr 22 - corn simdde carreg**



**Ffigwr 23 - simneiau o frics Porthgain**

***Ffiniau***

- Dim ond ychydig o’r adeiladau sydd â waliau terfyn blaen sy'n diffinio cyrtiau blaen neu erddi, ac mae'r rhain fel rheol yn cadw strwythurau adeiladu modern.



**Ffigwr 24 - waliau blaen**



**Ffigwr 25 - odyn galch**

# Lleoliad Tirwedd

33. Mae Asesiad Cymeriad Tirwedd (Trefin) ac Asesiad Cymeriad Morlun (Penbwchdy i Penllechwen) Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yn nodi cymeriad treiddiol yr arfordir creigiog sy’n frith o gilfachau cysgodol a childraethau fel Porthgain. Yn ogystal, maent yn disgrifio’r traddodiad hir o chwarelu arfordirol o fewn tirwedd sydd wedi’i haneddu ers y cyfnod Cynhanes. Cyfeirir yn benodol at yr olion diwydiannol cysylltiedig ym Mhorthgain ac Abereiddi.

34. Mae'r dirwedd o amgylch yn nodweddiadol yn weddol wastad ac eang, gan ganiatáu golygfa wych o'r môr dros dirwedd a nodweddir gan aneddiadau bach a ffermydd.

35. Mae'n well gweld y **golygfeydd trawiadol** i'r Ardal Gadwraeth o'r pentir arfordirol dwyreiniol a'r llwybr o'r de-ddwyrain.



**Ffigwr 26 - yr olygfa o’r pentir dwyreiniol tuag at y tŵr gwyngalchog gorllewinol.**

36. O’r Ardal Gadwraeth ei hun mae yna nifer o **olygfeydd allweddol**. Mae’r rhain yn cynnwys golygfeydd trawiadol o’r pentir gorllewinol dros y pentref. Amlinellir y rhain ar Fap 1.

37. Hefyd i'w gweld ar Fap 1 mae **cipolygon allweddol** o'r tu mewn i'r Ardal Gadwraeth tuag at wrthrychau/tirnodau/pwyntiau o ddiddordeb. Mae’r rhain yn cynnwys cipolygon o’r llwybr uwchben Tafarn Sloop.



**Ffigwr 27 - cipolwg o’r harbwr**



**Ffigwr 28 - llinell yr hen dramffordd**



**Ffigwr 29 - tŵr gwyngalchog y gogledd**



**Ffigwr 30 - adeiladau chwarel atodol**

## Porthgain

Ardaloedd anghysbell sy'n bwysig i leoliad a chymeriad yr Ardal Gadwraeth




**Porthgain**
**Ardal Gadwraeth**
**Dynodwyd 1997**
**MAPIAU 3**

A. Pentir dwyreiniol i'w weld yn amlwg o'r pentir sydd gyferbyn. Hen chwarel llechi clogwyni o bwysigrwydd hanesyddol.

B. Ardal i'r de-ddwyrain o Borthgain gan gynnwys Henllys a Felindre, y ddau o bwysigrwydd hanesyddol; hen ffyrdd trac cyn-ddiwydiannol i Borthgain o Lanrhian, (yr anheddiad canoloesol gydag eglwys y plwyf ac adeiladau eraill o bwysigrwydd hanesyddol / pensaernïol).

C. Tir i'r gorllewin o'r Ardal Gadwraeth gan gynnwys chwareli gwenithfaen ym Mhenclegyr, chwareli llechi yn Abereiddi, anheddiad Abereiddi gyda'i weddillion diwydiannol, ei lwybrau a'i dramffyrdd diwydiannol, Fferm Barry Island o bwysigrwydd hanesyddol ac amlygrwydd gweledol.

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2021

# Canllawiau Lleol a Chynigion Rheoli

38. Gall addasiadau modern amhriodol effeithio'n andwyol ar ymddangosiad golygon adeiladau a gallant hefyd fod yn niweidiol yn gorfforol i’r adeiladwaith hanesyddol. Ymhlith y nodweddion gwreiddiol pwysig sydd dan fygythiad o addasiadau o'r fath mae blaenau siopau, ffenestri codi pren, drysau a chasinau drysau, canllawiau haearn bwrw, rheiliau, nwyddau dŵr glaw, a photiau a chyrn simnai. Mae'n bwysig, felly, bod perchnogion a deiliaid eiddo yn mabwysiadu'r dull cywir o atgyweirio ac ailosod y nodweddion hyn. Mae cronni manylion bach ar y strydlun yn rhan annatod o'i gymeriad ac mae angen gofal arbennig i'w gwarchod.

39. Dylai'r gwaith arfaethedig gynnwys asesu pob safle ac adeilad o ran ei gyfraniad at gymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth, ei werth hanesyddol, ei ffurf adeiladu a'i berfformiad technegol, gan gynnwys presenoldeb diffygion neu unrhyw fygythiadau eraill i oroesiad ei adeiladwaith. Dylid ceisio cyngor arbenigol ar bob prosiect mawr, yn ddelfrydol gan bensaer, syrfëwr adeiladau neu gynllunydd sydd â phrofiad o weithio yn yr amgylchedd hanesyddol. Dylid ceisio cyngor arbenigol ar bob prosiect mawr, yn ddelfrydol gan bensaer, syrfëwr adeiladau neu gynllunydd sydd â phrofiad o weithio yn yr amgylchedd hanesyddol. Dylai unrhyw waith i adeiladau mwy ac adeiladau o werth hanesyddol eithriadol fod yn seiliedig ar gynllun cadwraeth a ymchwiliwyd yn gynhwysfawr, yn seiliedig ar Egwyddorion Cadwraeth Cadw ar gyfer Rheoli'r Amgylchedd Hanesyddol yn gynaliadwy yng Nghymru https://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciplesDLE/u400<3inneach

40. Nid yw dynodiad Ardal Gadwraeth yn atal newid ond mae'n ffurfio fframwaith i’r dref ddatblygu ynddo heb golli unrhyw un o'r priodoleddau sy'n ei gwneud yn arbennig.

### Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig

41. Mae’r rhain yn ddarostyngedig i reolaethau o dan ddeddfwriaeth ar wahân. Mae rheolaeth adeilad rhestredig yn cael ei weithredu gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol, a rheolaeth Henebion Cofrestredig gan Cadw. Mae rhestru adeiladau yn cynnwys eu tu allan, y tu mewn a'r cwrtilau hanesyddol (y myth cyffredin yw bod rhestru'n berthnasol i ffasadau yn unig).

### Cynnal a Chadw

42. Gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd i adeilad yw’r ffordd orau a mwyaf economaidd o gadw ei adeiladwaith. Cyfrifoldeb perchnogion a phreswylwyr yw gofalu am adeilad. Bydd adeilad sy’n cael ei edrych ar ei ôl yn cadw ei werth a bydd yr angen am waith atgyweirio helaeth yn cael ei osgoi. Y mater pwysicaf yw amddiffyn rhag dŵr a thamprwydd. Y pethau cyntaf y dylid eu hatgyweirio yw toeau, landeri a pheipiau dŵr. Efallai y bydd perchnogion adeiladau mawr

yn ystyried creu cynllun cynnal a chadw yn seiliedig ar archwiliadau gweledol blynyddol ac arolwg manwl bob pum mlynedd.

**Gwaith cynnal a chadw o ddydd i ddydd**

43. Dylai perchnogion adeiladau a phreswylwyr sicrhau bod y tasgau canlynol yn cael eu gwneud yn rheolaidd:
    - ***Clirio dail a malurion*** yn enwedig ar ôl yr hydref a chanolbwyntio'n benodol ar gwteri a nwyddau dŵr glaw. Cyfnod o law trwm yw'r amser gorau i weld unrhyw ddiffygion.
    - ***Rheoli twf planhigion*** sy'n gallu cyflymu dirywio ac weithiau achosi niwed i strwythur adeiladau. Dylid lladd eiddew trwy ei dorri wrth ymyl y ddaear a gadael iddo wywo cyn ceisio tynnu'r gwreiddiau o'r wal. Mae angen defnyddio chwynladdwr i gael gwared ar falerian.
    - ***Chwilio am ymosodiadau gan bryfed a ffyngau*** sy'n gallu cael eu hachosi gan damprwydd ac awyru gwael.
    - ***Gwirio awyru*** i sicrhau nad yw unrhyw ddellt sy'n awyru mannau o dan y lloriau wedi'u blocio. Gall diffyg awyru arwain at amodau lle gall pydredd ffwngaidd gydio.

44. Dylai gwaith cynnal a chadw rheolaidd leihau'r angen am atgyweiriadau mawr i'r holl adeiladau a dylai atgyweirio nodweddion gwreiddiol fod yr opsiwn cyntaf i'w ystyried bob amser. Fodd bynnag, bydd rhai elfennau yn cyrraedd diwedd eu hoes yn y pen draw, ac os felly bydd yn rhaid ystyried ailosod gan ddefnyddio deunyddiau traddodiadol a thechnegau atgyweirio profedig. Y dewis arall yw colli gwerth hanesyddol adeiladau unigol ac erydiad graddol diddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Pwrpas atgyweirio unrhyw adeiladau yn yr ardal gadwraeth yw atal, neu arafu o leiaf, y broses o bydru heb niweidio na newid nodweddion sy'n cyfrannu at ei bwysigrwydd hanesyddol/pensaernïol.

*45. Gall diffyg gwaith cynnal a chadw parhaus arwain at ddirywiad yn adeiladwaith yr adeilad, er enghraifft, os oes gwteri ar goll neu os na chaiff toeon sy'n gollwng eu hatgyweirio, sy'n golygu bod dŵr yn treiddio i rannau o'r adeilad sydd dan fygythiad.*

**Toeau**

46. Toeon ardal drefol sy'n ffurfio'r nenlinell a phroffil gweledol strydlun ac mae'n rhan bwysig iawn o'i hunaniaeth. Y cyfuniad o ddeunyddiau, manylion, ffurf a chasgliad sy'n creu'r 'het', sy'n eistedd uwchlaw'r adeilad ac sy'n hanfodol i'w gymeriad. Er nad yw llawer o'r manylion yn weledol ar lefel y stryd bob amser, mae'r topograffi lleol yn caniatáu golygfeydd tuag at, ar draws a thros y toeon o rannau gwahanol o'r dref. Mae'r to, yn ôl ei natur, yn rhan hanfodol o amddiffynfa adeilad rhag y tywydd ac, fel y cyfryw, dyma un o'r ardaloedd pwysicaf i ganolbwyntio gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio arni.

**Gorchuddion Toeon**

47. Mae'r rhan fwyaf o eiddo'n defnyddio llechi naturiol, a dylid defnyddio'r rhain ar gyfer unrhyw waith atgyweirio neu ddisodli. Dylai cribau, bargodion a manylion

eraill gael eu gosod mewn mortar gydag uniadau bôn. Nid yw'n briodol defnyddio teils concrid a chlai.

48. Mae llechi naturiol wedi'u mewnforio sy'n cyd-fynd â lliw llwyd neu gruglas y llechi Cymreig gwreiddiol yn ateb mwy cost-effeithiol, ond mae'n bwysig cael y llechi o chwarel ag enw da er mwyn osgoi problemau tymor hwy sy'n gysylltiedig â chydnawsedd pan fydd y llechi'n cael eu treulio gan y tywydd. Mae llechi artiffisial, er eu bod weithiau'n anodd eu gwahaniaethu oddi wrth ddeunydd naturiol pan fyddant yn newydd, yn hindreulio mewn ffordd wahanol a bydd, dros amser, yn ymddangos yn wahanol i'r cynnyrch go iawn. Os caiff y to ei inswleiddio, dylid ei osod ar lefel y nenfwd, neu rhwng y trawstiau, os yw'r awyru yn ddigonol (drwy fylchau yn y bondo, nid tyllau aer sy'n cael eu gosod ar oleddf y to). Bydd inswleiddio ar ben y trawstiau yn codi proffil y to gan arwain at broblemau posibl mewn manylion yn y bondo a lle mae'n ffinio ag adeiladau eraill. Fodd bynnag, gall cyflwyno lefelau uchel o inswleiddio i adeiladau hŷn achosi anwedd a dirywiad dilynol.

**Ffenestri to a dormerau**

49. Pan gaiff croglofftydd eu trawsnewid a bod angen ffenestri to neu ddormerau, dylid eu gosod fel arfer ar gefnluniau gan eu bod yn torri ar draws llinell barhaus goleddf y to ar ochr y stryd. Dylid osgoi ffenestri dormer newydd, lle nad oedd dormerau yn bodoli o'r blaen, lle y bo'n bosibl, gan eu bod yn effeithio'n andwyol ar broffil y to, a maint a chydbwysedd ffurf a chasgliad yr adeilad. Lle mae dormerau gwreiddiol yn bodoli, dylid hefyd osgoi unrhyw newidiadau i'r mesuriadau a'r maint cyffredinol. Dylid ystyried defnyddio fersiynau modern o ffenestri to haearn bwrw cynnar (i'r mesuriadau a'r maint cywir, ynghyd â bar gwydro fertigol) er mwyn cadw cymeriad y to cymaint â phosibl. Mae gan lawer o weithgynhyrchwyr ffenestri Ffenestri To Cadwraeth gwydr dwbl arbennig, sydd wedi'u cynllunio i eistedd ar arwyneb y to.

**Simneiau a Chyrn Simneiau**

50. Mae cyrn a photiau simnai yn ychwanegu at ddiddordeb ac amrywiaeth y nenlinell a'r strydlun. Dylid cadw simnai a'u hatgyweirio gan osod potiau clai newydd yn ôl yr angen. Pan fydd corn gwreiddiol wedi'i wneud yn fyrrach, yna dylid ei ailadeiladu i'w uchder gwreiddiol. Lle na cheir unrhyw dystiolaeth bod patrwm y corn gwreiddiol yn bodoli, dylid cadw at yr arddull lleol, yn nodweddiadol gyda chyrsiau corbelog yn y bargodi ar y pen. Mae'r mwyafrif o gyrn simnai o frics coch, ond beth bynnag fo'r deunyddiau, dylid dilyn yr adeiladwaith gwreiddiol.

**Paneli Solar Dŵr Poeth a Phaneli Solar Ffotofoltäig**

51. Bydd yr angen i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni yn cael ei gydbwyso yn erbyn yr angen i amddiffyn cymeriad ac ymddangosiad yr ardal wrth ddelio â chynigion ar gyfer paneli solar mewn Ardaloedd Cadwraeth. Oherwydd sensitifrwydd yr Ardal Gadwraeth i addasiadau modern, bydd angen ystyried lleoliad a dyluniad y paneli yn ofalus.

52. Serch bod y deiliad tŷ cyfredol wedi cael hawliau datblygu, bydd gofyn ystyried gosod offer microgynhyrchu ar brif weddau adeiladau neu mewn lleoliadau amlwg o fewn Ardaloedd Cadwraeth yn ofalus. Dylid ystyried lleoliadau amgen yng nghefn adeiladau, ar dai allan atodol neu wedi'u gosod ar y ddaear, lle na fyddai'r paneli yn weladwy o'r briffordd. Ni ddylai paneli estyn allan fwy na 200mm o'r to neu arwyneb y wal. Mae llechi solar a nifer gynyddol o gynnyrch o 'ystod dreftadaeth' ar gael..

53. Dylai'r paneli fod o liw tywyll a dylai'r fframiau fod yn ddu mat neu lwyd. Dylid osgoi paneli glas lliw golau safonol gyda fframiau llwyd golau adlewyrchol.

**Landeri a Pheipiau Dŵr**

54. Dylid ystyried defnyddio landeri haearn bwrw traddodiadol (neu alwminiwm bwrw) wrth adfer adeiladau treftadaeth. Dylid defnyddio landeri hanner crwn syml bob amser ar adeiladau cynharach. Mae landeri patrwm hanner crwn ac ogee yn addas ar gyfer adeiladau diweddarach. Nid yw deunyddiau uPVC rhatach mor gryf ag haearn bwrw neu alwminiwm bwrw ac maent yn fwy agored i effaith a difrod tywydd, yn ogystal â chamdroad, sydd weithiau'n effeithio ar raddiant a chwymp naturiol landeri gyda'r risg o ganlyniad o ollyngiadau a threiddiad dŵr i mewn i adeiladwaith yr adeilad. Gall uPVC o ansawdd uwch fod yn addas mewn cyd-destun modern neu i weddau llai.

**Ffenestri a gwydro**

55. Ffenestri yw 'llygaid' adeilad a chanolbwynt ei gymeriad. Ffenestri codi llithro â hongiad dwbl sydd i'w gweld yn bennaf yn yr ardal gadwraeth. Mae newidiadau i fesuriadau agoriadau ffenestri a/neu'r ffenestri eu hunain yn anochel yn cael effaith andwyol ar ffasâd yr adeilad yn gyffredinol. Dylid osgoi ymgorffori holltau awyru, oherwydd eu heffaith andwyol ar y cymeriad cyffredinol.

56. Dylid cadw ffenestri codi gwreiddiol bob amser a'u hatgyweirio, oni bai bod hynny'n hollol anymarferol. Anaml y bydd angen gosod rhai newydd yn eu lle. Mae dadfeiliad fel arfer i'w weld o gwmpas y siliau lle gellir asio pren newydd i mewn. Mae'r gwydr crwm neu'r gwydr silindr gwreiddiol yn deneuach gydag arwyneb mwy anwastad o gymharu â gwydr nofiol modern gan roi adlewyrchiadau mwy cynnil, a lle mae wedi goroesi, dylid ei gadw bob amser. Mae'n debygol y bydd angen pwysau ffenestr trymach ar wydr modern trymach er mwyn gwrthbwyso'r ffenestr. Pan fydd yn rhaid gosod ffenestr newydd, yn hytrach na'i hatgyweirio, dylai'r ffenestr newydd fod yn un pren a dylai gyd-fynd yn union â'r ffenestr wreiddiol. Lle bo gwydr dwbl yn bosibl, rhaid rabedu'r unedau wedi'u selio yn draddodiadol a rhaid iddynt fod o fanyleb fain er mwyn caniatáu manylion saernïaeth main traddodiadol. Dylid cadw silliau ffenestr llechi gwreiddiol lle y bo'n bosibl.

57. Mae cael gwared â ffenestri anghydnaws nad ydynt yn wreiddiol i'r adeilad, a gosod rhai i efelychu'r math a'r patrwm hanesyddol yn cael ei annog. Pan fydd y ffenestri gwreiddiol wedi cael eu newid yn amhriodol, bydd ffenestri o ddeunyddiau anhraddodiadol sy'n efelychu'r dyluniad gwreiddiol yn cael eu

hystyried yn ffafriol, yn amodol ar gytuno ar y fanyleb fanwl. Bydd angen caniatâd cynllunio o fewn Erthygl 4(2).

58. Lle mae deiliaid tai yn dymuno efelychu ffenestri anhraddodiadol presennol, ni fydd angen caniatâd cynllunio ar yr amod bod y ffenestri yn dyddio cyn dynodiad yr ardal gadwraeth a chynigir atgynyrchiadau union gywir.

59. Pan fydd y ffenestri gwreiddiol neu hanesyddol wedi goroesi ac mae posib eu hatgyweirio a'u huwchraddio, ni roddir caniatâd cynllunio i ailosod deunyddiau eraill o fewn Erthygl 4 (2).

**Drysau**

60. Mae llawer o'r materion sy'n berthnasol i ffenestri a gwydro hefyd yn berthnasol i ddrysau. Lle y bo'n bosibl, dylid cadw ac atgyweirio drysau pren traddodiadol. Pan fo angen, dylai drysau newydd ddilyn arddull y drws gwreiddiol os yw'n hysbys, neu dylai gyd-fynd â'r cyfnod adeiladu gwreiddiol. Er bod patrymau drysau traddodiadol, ar y cyfan, yn fwy amrywiol na ffenestri, mae rhai egwyddorion cyffredinol yn berthnasol. Nid oedd drysau ffrynt wedi'u gwydro fel arfer, pan oedd ganddynt ffenestri linter uwchlaw, er bod gan eiddo Fictoraidd ac Edwardaidd diweddarach wydr barugog a/neu addurnedig yn lle'r paneli uchaf. Rhaid cadw, atgyweirio a chynnal a chadw ffenestri linter, casinau drysau a nodweddion ategol eraill bob amser. Mae cynllun ac arddull y gwaith haearn hefyd yn bwysig a dylai gyd-fynd â chynllun ac arddull y drws gwreiddiol. Dylid osgoi handlenni lifer allanol.

61. O fewn Erthygl 4 (2), nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer atgyweirio neu ailosod drws hanesyddol sydd union yr un fath â'r hen un a lle mae deiliaid tai yn dymuno atgynhyrchu drysau anhraddodiadol presennol, ni fydd angen caniatâd cynllunio ar yr amod bod y drysau yn dyddio cyn y dynodiad ardal gadwraeth a bod union atgynyrchiadau yn cael eu cynnig.

**Portshys a chanopïau**

62. Dylai portshys a chanopïau adlewyrchu traddodiadau lleol o symlrwydd a defnyddioldeb, gyda chanopïau gwastad, neu gyda bracedi neu doeon ar oledd. Dylid atgyweirio neu adfer casinau drws mwy addurnedig.

**Mynediad i bobl anabl**

63. Mae angen darparu mynediad i bobl anabl, er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth hygyrchedd. Mae bob amser yn bwysig sicrhau y caiff y rheoliadau a'r canllawiau ategol eu dehongli'n gywir ar gyfer Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth. Lle y gwneir gwaith o'r math hwn, dylid gwneud hynny mewn modd sensitif a gan ystyried egwyddorion cyffredinol mesuriadau, cynllun, deunyddiau a chrefftwaith sy'n berthnasol i'r adeilad cyfan.

**Gwaith pwyntio a gorffeniadau waliau**

64. Mae'n well defnyddio morter calch yn hytrach na morter sment caled ar atgyweiriadau ac estyniadau i adeiladau hanesyddol a dylai gwaith pwyntio cerrig a brics, ar atgyweiriadau ac adeiladau newydd, ddilyn manylion traddodiadol, gydag uniadau cyfwyneb, cilannog neu ddwbl, gan sicrhau nad yw'r morter yn ymestyn dros y brics neu'r cerrig o'i amgylch. Dylid defnyddio'r un deunydd i ddisodli morter calch presennol bob amser a dylid ceisio cyngor ar gyfansoddiad neu dechnegau gan Swyddog Cadwraeth Adeiladau'r Awdurdod. Mae'n dderbyniol defnyddio rendr yn y rhan fwyaf o achosion, ac mae'n well cael gorffeniad llyfn - dylid defnyddio rendr calch ar gyfer atgyweiriadau neu estyniadau i adeiladau hanesyddol a dylid gorffen rendr sment mewn lliw pastel.

65. Mae hongian llechi yn arfer traddodiadol ar gyfer gweddau agored (sydd hefyd yn gyfle i inswleiddio pan fyddant newydd eu hadeiladu). Rydym yn annog pobl i beidio â chael gwared â llechi sy'n hongian.

## Blaenau siopau ac arwyddion

66. Mae'r blaen siop traddodiadol yn ffurfio 'ffrâm' ar gyfer yr arddangosfa ffenestri, gan gynnwys y ffasgia uwchben, y rhan o dan y ffenestr a'r pilastrau bob ochr. Dylai mesuriadau pob rhan greu cyfansoddiad cytbwys. Gall y fynedfa i'r adeilad fod yn y canol neu ar un ochr yn dibynnu ar led yr eiddo. Dylid cadw ac atgyweirio stepiau addurnedig mewn drysau cilfachog. Dylai'r ffasgiâu gael eu gorffen ar y brig gyda mowldio cornis a'i gynnwys ar bob ochr gan ysgwydd neu gorbel, sy'n gweithredu fel capan colofn i'r pilastrau. Bydd y defnydd o deils ar y rhan o dan y ffenestri yn helpu i wrthsefyll dŵr ac yn rhoi manylyn traddodiadol.

67. Dylid cadw blaenau siopau traddodiadol sy'n bodoli, neu elfennau sydd wedi goroesi, a'u hatgyweirio lle bynnag y bo'n bosibl. Gellir cuddio nodweddion gwreiddiol o dan arwynebau diweddarach. Pan fydd blaenau siopau wedi'u colli'n llwyr ond bod tystiolaeth ffotograffig o'u cynllun gwreiddiol yn bodoli, bydd atgynhyrchiad manwl yn hynod briodol. Lle nad oes tystiolaeth o'r gwreiddiol yn bodoli, gellid defnyddio cynllun modern sy'n dilyn egwyddorion y 'fframio' gwreiddiol. Pan fydd adeiladau ar wahân wedi'u cyfuno i greu un uned, dylai pob adeilad gael ei wyneb unigryw ei hun er mwyn cynnal rhythm a mesuriadau'r strydlun. Ni ddylai'r un ffasgia gario dros y ddau ffasâd. Dylid isrannu'r ffenestr yn fertigol er mwyn cynnal mesuriadau nodweddiadol yr adeilad a'r cyd-destun. Dylai llythrennau a dyluniad graffig fod yn gymesur, yn briodol i'r cyd-destun ac nid yn generig.

68. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol ar ddylunio blaen siop.

## Lliw

69. Mae lliw hefyd yn rhan bwysig o nodweddion cyffredinol y dref. Dylai'r rendr fod fel rheol mewn lliwiau pastel a dylai pren wedi'i baentio fod yn llwydwyn gyda

lliwiau cryf fel arfer wedi'u cadw ar gyfer drysau ffrynt, rheiliau a blaenau siopau.

## Muriau terfyn a rheiliau

70. Mae llawer o strydoedd ac eiddo preswyl yn cadw cyrtiau muriog neu rheiliog, sy'n hanfodol i gymeriad arbennig yr ardal gadwraeth. Mae angen rhoi sylw arbennig i sicrhau nad yw muriau terfyn a rheiliau yn cael eu tynnu i ganiatáu parcio ac nad ydynt yn cael eu disodli'n amhriodol.

71. Yn gyffredinol dylid paentio gwaith haearn mewn lliwiau tywyll neu i gyd-fynd â ‘lifrai’ y tŷ. Mae’n well osgoi'r ‘du ac aur treftadaeth’ hollbresennol.

72. Mae gerddi ffrynt yn amwynder lleol pwysig. Maent yn cyfoethogi'r ardal gadwraeth yn weledol a gallant ddarparu draeniad cynaliadwy.

# Datblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth

73. Yn gyffredinol, pan gynigir datblygiadau a/neu estyniadau newydd, mae'n bwysig eu bod yn seiliedig ar egwyddorion dylunio cadarn, yn ogystal â manylion apelgar mewn perthynas â'u cyd-destun hanesyddol. Mae'n arbennig o bwysig osgoi atebion safonol pa un ai mewn cyd-destun domestig neu fasnachol. Dylai pob ffurf o ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth:

- Gadw ac atgyfnerthu 'nodweddion unigryw lleol' a chymeriad yr ardal gadwraeth, yn cynnwys patrymau strydoedd, mannau agored a choed, ffiniau lleiniau a thriniaethau ffiniau;
- Ystyried llinellau adeiladu presennol a chyfeiriad datblygiadau presennol;
- Ymateb i rythm a mynegiad penodol israniadau'r strydlun a'r adeiladau unigol o ran baeau ac agoriadau sy'n ymyrryd ar y ffasâd;
- Atgyfnerthu cymeriad a graen unigryw ardal gymeriad benodol yr ardal gadwraeth, trwy ddealltwriaeth wybodus o'i ffurfiau adeiladu a'i harddulliau, nodweddion a deunyddiau;
- Parchu maint a chasgliad adeiladau cyfagos. Mae'n hanfodol nad yw datblygiad newydd yn anghyson â'r adeiladau presennol oherwydd ei uchder, lefelau llawr, maint ffenestri a drysau, casgliadau cyffredinol a thoeau;
- Cynnal golygfeydd a fistâu allweddol i mewn ac allan o'r Ardal Gadwraeth; a
- Lle bo modd, lleihau effaith weledol cerbydau sydd wedi'u parcio a'r llefydd parcio a ddarperir ar y strydlun a gosodiad tirwedd strydoedd ac adeiladau hanesyddol. Lle bo'n bosibl, lleihau effaith weledol cerbydau wedi'u parcio (gan gynnwys yn ystod cyfnodau brig tymhorol pan fo tagfeydd yn aml ym Porthgain) a darparu mannau parcio ar y strydlun a gosodiad tirwedd strydoedd ac adeiladau hanesyddol.

74. Lle y caiff datblygiadau newydd eu cynnig ar gyfer ardaloedd sydd gerllaw'r ardal gadwraeth, yn hytrach nag ynddi, bydd cyn bwysiced cymryd gofal ac ystyried effaith y cynllun arfaethedig ar osodiad yr ardal gadwraeth. Lle y bo'n briodol, dylai pob math o ddatblygiad newydd barchu'r egwyddorion a restrir uchod, gan roi sylw penodol i'r canlynol:

- Sicrhau bod datblygiadau newydd yn dilyn yr un maint, ffurf a deunyddiau lleol er mwyn atgyfnerthu nodweddion pensaernïol nodedig y cyd-destun uniongyrchol;
- Ystyried effaith datblygiadau newydd ar olygfeydd a fistâu allweddol;

75. Efallai y bydd dyluniadau cyfoes o ansawdd da yn briodol yn yr ardal gadwraeth, y peth pwysig yw osgoi datblygiad anghyson, gradd isel, anghynnil a llachar.

76. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau am rai mathau o ddatblygiad gynnwys datganiad dylunio a mynediad. Mae hyn yn cynnwys yr holl

ddatblygiadau mawr, ac mewn perthynas â datblygiad mewn Ardaloedd Cadwraeth, datblygiadau ar gyfer un neu fwy o anheddau neu ar gyfer darparu adeiladau ag arwynebedd llawr o 100 metr sgwâr neu fwy. Mae canllawiau manwl pellach ar Ddatganiadau Dylunio a Mynediad i'w gweld yn nogfen Llywodraeth Cymru/Comisiwn Dylunio Cymru **Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru: Pam, Beth a Sut**.

77. Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i rai ceisiadau (Caniatâd Adeilad Rhestredig a Chaniatâd Ardal Gadwraeth) gynnwys Datganiad Effaith ar Dreftadaeth (HIS). Nod hyn yw sicrhau bod arwyddocâd yr ased hanesyddol yn cael ei ystyried wrth ddatblygu a dylunio cynigion. Mae'r HIS yn cael ei lywio gan y broses o gynnal Asesiad Effaith ar Dreftadaeth (HIA), sydd â'r nod o gynorthwyo gyda dylunio datblygiad priodol trwy asesu'r effaith ar arwyddocâd. Darperir canllawiau manwl pellach ar y broses HIA yng nghanllaw arfer gorau CADW - **Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru**.

**Dymchwel**

78. Mae angen Caniatâd Ardal Gadwraeth i ddymchwel adeilad gyda chyfanswm cynnwys ciwbig sy'n fwy na 115 metr ciwbig ac i ddymchwel nodwedd derfyn adeiledig sy'n fwy nag un metr o uchder lle mae'n ffinio â phriffordd, dyfrffordd neu fan agored, neu fwy na dau fetr o uchder mewn unrhyw achos arall. Dylai awdurdodau cynllunio lleol fod o blaid cadw adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal gadwraeth.

79. Mae dymchwel adeilad rhestredig (neu unrhyw ran ohono) heb gydsyniad adeilad rhestredig yn drosedd.

**Dysglau Lloeren ac Antenau.**

80. Ni chaniateir gosodiadau o'r fath os ydynt yn gorwedd ar simnai, wal neu lethr to sy'n wynebu priffordd neu sy'n weladwy o briffordd. Bydd ceisiadau sy'n cynnwys darparu dysglau/antenau mewn lleoliadau o'r fath yn cael eu gwrthwynebu.

**Safonau Dylunio Priffyrdd**

81. Mae'r rhain yn benderfynyddion pwysig iawn o ragoriaeth a sensitifrwydd dylunio mewn ardaloedd hanesyddol. Anogir yr Awdurdod Priffyrdd i barhau i weithio gyda'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r Cyngor Tref i wneud y defnydd gorau o safonau dylunio, i fod yn hyblyg lle bo hynny'n briodol ac i ddefnyddio'r deunyddiau a'r gorffeniadau mwyaf priodol lle mae adnoddau ariannol yn caniatáu. Mae hyn yn berthnasol i ardaloedd cadwraeth a'u lleoliadau.

**Tir y Cyhoedd**

82. Er bod cadwraeth a gwella eiddo preifat yn yr ardal gadwraeth yn bwysig, mae ardaloedd a nodweddion cyhoeddus (polion, ceblau, arwyddion, meinciau, biniau, goleuadau ac ati) yn cael effaith sylweddol ar rinweddau arbennig yr

ardal. Wrth weithio gyda'r asiantaethau perthnasol, tynnir sylw at rinweddau arbennig yr ardal gadwraeth wrth ddarparu seilwaith priodol.

**Ardaloedd Agored Hanfodol**

83. Amlygir sawl ardal fel y cyfryw yn yr arfarniad, ardaloedd megis gerddi preifat a chyhoeddus bach, mynwentydd hen a newydd ac ardal yr harbwr. Mae'r cyfle i ddatblygu yn yr ardaloedd hyn yn gyfyngedig ar y cyfan a bydd yn cael ei wrthsefyll oni bai y gellir dangos nad oes unrhyw effaith andwyol ar gymeriad yr ardal gadwraeth. Mae rhai ardaloedd yn cynnig cyfle i wella.

**Coed a gwrychoedd**

84. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol y pŵer i amddiffyn coed, gwrychoedd a choetiroedd trwy wneud gorchmynion cadw coed. Yn ogystal, mae darpariaeth arbennig ar gyfer coed mewn ardaloedd cadwraeth nad ydynt yn destun gorchmynion cadw coed. Mae'n ofynnol i unrhyw un sy'n cynnig torri i lawr, difrigo neu docio coeden mewn ardal gadwraeth roi chwe wythnos o rybudd i'r awdurdod cynllunio lleol, ac yn ystod yr amser hwnnw gall yr awdurdod cynllunio lleol benderfynu a ddylid amddiffyn y goeden honno gyda gorchymyn cadw coed.

85. Wrth ystyried a ddylid ymestyn amddiffyniad i goed mewn Ardaloedd Cadwraeth, dylai awdurdodau cynllunio lleol bob amser ystyried cyfraniad gweledol, hanesyddol ac amwynder coed. Mewn rhai achosion, gallai plannu coed newydd neu ail-blannu fod yn ddymunol lle byddai hynny'n gyson â chymeriad neu ymddangosiad yr ardal.

**Rheoli a Gorfodi**

86. Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol bwerau cynllunio presennol i unioni materion fel cyflwr gwael tir ac adeiladau, hysbysiadau gwaith brys a hysbysiadau atgyweirio ar gyfer adeiladau rhestredig ac adeiladau a strwythurau heb eu rhestru. Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Datblygu Cyffredinol) 1995 (fel y'i diwygiwyd) yn darparu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer mân waith adeiladu ar eiddo preswyl, gyda rhai cyfyngiadau mewn Ardaloedd Cadwraeth. Trwy ddefnyddio 'Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2)', gellir cyfyngu ar hawliau datblygu a ganiateir ymhellach, ar gyfer datblygiadau preswyl.

87. Arolygir yr Ardal Gadwraeth bob tair blynedd i sefydlu a oes bygythiad gwirioneddol a phenodol i gymeriad yr Ardal Gadwraeth, a oes angen gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) ar draws yr Ardal Gadwraeth gyfan, a pha mor effeithiol yw'r darpariaethau'r ddogfen hon.

# Atodiad A: Deddfwriaeth, polisi a chanllawiau cenedlaethol

*1.* Mae Ardaloedd Cadwraeth yn cael eu diffinio o dan adrannau 91 (gan gyfeirio at adran 69) **Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990** fel:

*2.* *“ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu ymddangosiad”.*

*3.* Mae adran 69 o'r Ddeddf, yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol nodi'r meysydd hyn, ac o dan adran 71 o'r Ddeddf, o bryd i'w gilydd, i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella'r ardaloedd hyn. Mae Adran 72 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyffredinol ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i roi *’sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal honno'.*

4. Mae adran 74 o'r Ddeddf yn rheoli dymchwel mewn Ardaloedd Cadwraeth trwy ei gwneud yn ofynnol i gael Caniatâd Ardal Gadwraeth gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i ddymchwel adeiladau o fewn Ardaloedd Cadwraeth yn ddarostyngedig i rai eithriadau a wneir o dan adran 75 o'r Ddeddf. Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol i adeiladau rhestredig, Henebion Rhestredig (SAMs) nac i ddymchwel adeiladau eglwysig sy'n cael eu defnyddio at ddibenion eglwysig, gan fod gwaith o'r fath yn ddarostyngedig i reolaethau o dan ddeddfwriaeth ar wahân.

5. Mae Deddf **yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016** yn gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag amddiffyn a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae'n cyflwyno mesurau ar gyfer rheoli newid i'r amgylchedd hanesyddol yn gadarnhaol, megis ei gwneud yn ofynnol bod pob cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig ac am Gydsyniad Ardal Gadwraeth yn cynnwys Datganiadau Effaith ar Dreftadaeth (gweler adran 6). Mae hefyd yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i lunio Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a’i ddiweddaru.

6. Mae **Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (11eg Argraffiad)** yn cynnwys canllawiau cynllunio cenedlaethol sy'n cydnabod Ardaloedd Cadwraeth fel asedau hanesyddol ac sy'n cydnabod yr angen i'r system gynllunio amddiffyn, gwarchod a gwella arwyddocâd asedau hanesyddol, gan gynnwys ystyried eu lleoliadau. Pwysleisir yr angen i benderfyniadau fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth o effaith cynnig ar arwyddocâd ased hanesyddol. Mae'n egluro bod *amddiffyn, cadw a gwella asedau hanesyddol yn fwyaf effeithiol... wrth ddylunio cynigion newydd.*

7. Amcanion Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Ardaloedd Cadwraeth *yw diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth, gan helpu ar yr un pryd i sicrhau eu bod yn parhau’n llewyrchus ac yn ffyniannus.* Mae’r polisi hefyd yn nodi *‘dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid diogelu neu wella*

*cymeriad neu olwg ardal gadwraeth a'i lleoliad'* ac mae'n gosod *'rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith datblygu, gan gynnwys hysbysebion, a fyddai'n amharu ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad i lefel annerbyniol...'.* Mae'r rhagdybiaeth hon yn berthnasol oni bai, mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae datblygiad yn ddymunol ar sail budd y cyhoedd. Mae PCC hefyd yn esbonio y gall Arfarniadau Cymeriad Ardal Gadwraeth a Chynlluniau Rheoli gynorthwyo gyda swyddogaethau rheoli datblygu ac y dylai penderfyniadau dylunio sy'n ymwneud â chymeriad fod yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun.

8. Mae **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24** yn darparu canllawiau cynllunio cenedlaethol manwl pellach sy'n ymwneud â phwnc yr amgylchedd hanesyddol ac, yn benodol, sut y dylid ystyried yr amgylchedd hanesyddol trwy'r broses gynllunio. Mae'r adran ar Ardaloedd Cadwraeth yn ymdrin ag agweddau gan gynnwys eu dynodiad a'u hadolygiad, Arfarniadau Cymeriad Ardal Gadwraeth, Cynllunio mewn Ardaloedd Cadwraeth, Cydsyniad Ardal Gadwraeth, Rheoli Hysbysebu, Coed, Gorfodi ac Apeliadau. Mae diffinio cymeriad pob ardal gadwraeth a nodi polisïau ar gyfer cadw a gwella trwy Arfarniadau Cymeriad Ardal Gadwraeth a Chynlluniau Rheoli, yn y drefn honno, yn cael eu hystyried yn ffyrdd o ddarparu sylfaen gadarnach ar gyfer polisïau cynllun datblygu lleol a phenderfyniadau rheoli datblygu.

9. Mae **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12** yn darparu canllawiau cynllunio cenedlaethol sy'n gysylltiedig â dylunio a'i nod yw hwyluso dyluniad da a chynaliadwyedd trwy'r system gynllunio. Mae'n nodi buddion defnyddio Datganiadau Dylunio a Mynediad fel offer cyfathrebu i amlinellu sut mae dyluniad y cynnig datblygu wedi'i ystyried o'r cychwyn cyntaf a sut mae amcanion dylunio da wedi llywio hyn. O ran yr amgylchedd hanesyddol a'r Ardaloedd Cadwraeth, yn benodol, mae'n egluro y bydd angen mwy o gyfarwyddyd a chyngor gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar sut y gellir darparu ar gyfer datblygiad newydd a rheoli newid mewn ardaloedd o gymeriad arbennig.

*10.* Mae CADW wedi cyhoeddi cyfres o ganllawiau arfer gorau i gefnogi'r newidiadau i ddeddfwriaeth yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Y mwyaf perthnasol o'r rhain yw ***Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru***, sydd â'r nod o sicrhau dull cyson o ddynodi, gwerthuso a rheoli Ardaloedd Cadwraeth. O ran arfarniadau, mae'r rhain yn cael eu gweld fel offer hanfodol ar gyfer rheoli ardaloedd sydd eisoes yn bodoli yn gadarnhaol. Mae'n egluro eu pwrpas, y potensial i weithio gyda chymunedau lleol, cyrff trydydd sector ac ymddiriedolaethau archaeolegol, cofnodi adeiladau ac elfennau eraill, ffynonellau gwybodaeth, ac mae'n cynnwys awgrymiadau ar gynnwys. Mae ein canllawiau arfer gorau ar faterion cysylltiedig yn cynnwys ***Rheoli Nodweddion Hanesyddol Cymru***, ***Asesiadau Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*** *a* **Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru**. Yn 2011 cyhoeddodd Cadw hefyd: ***Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy***.